pss*

# Rhiant llawn amser, **gofalwr Rhannu Bywydau rhan amser**

Beth am fod yn ofalwr gyda Rhannu Bywydau y PPS a chreu gyrfa lawn boddhad sy'n addas i chi, ac yn gweithio o amgylch y plant.

- Bod yn fos arnoch chi eich hun
- Dewis eich oriau gwaith eich hun
- Gweithio o gartref (neu'r parc, caffi neu sinema)
- Helpu i newid bywyd rhywun er gwell
- Does dim angen unrhyw brofiad blaenorol - fe wnawn ni eich hyfforddi chi



## Yn recriwtio nawr yn Sir y Fflint!

**makeyourself.org.uk**

## Beth yw Rhannu Bywydau?

Mae Rhannu Bywydau yn cefnogi pobl yn Sir y Fflint i fyw bywyd llawn a hapus – yn bobl sydd ag anabledd dysgu, heriau iechyd meddwl, anabledd corfforol neu anghenion cefnogi eraill. Tra mae'r plant yn yr ysgol, gallwch gael tâl am weithio fel gofalwr Rhannu Bywydau, gan gefnogi pobl o'ch cartref ac allan yn y gymuned.

make yourself at home

## Pa gefnogaeth fyddwn ni'n ei darparu?

Mae hynny'n dibynnu ar y person rydych chi'n ei gefnogi. Rydyn ni'n cefnogi pobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth fel maent yn dymuno – felly gallech fod gyda Dawn yn y bingo lleol, neu'n cefnogi Sarah i ymolchi a sychu ei gwallt, neu efallai bod Tom angen rhywfaint o gefnogaeth gyda mynd i'w apwyntiad gyda'i feddyg. Mae'r gefnogaeth rydyn ni'n ei darparu'n gwbl unigryw i bob unigolyn. Ac mae un peth yn sicr: mae bod yn ofalwr Rhannu Bywydau yn waith gwych sy'n rhoi llawer o foddhad – 'fyddwch chi byth yn diflasu!

## Pa sgiliau sydd eu hangen?

Rydyn ni wedi bod yn cynnig y gwasanaeth Rhannu Bywydau ers 40 mlynedd felly rydyn ni'n gwybod yn union beth sy'n gwneud gofalwr da. Y cyfan sydd arnoch ei angen i wneud cais am y rôl yma yw calon fawr, meddwl agored, natur ddidwyll, penderfyniad a llond gwlad o broffesiynoldeb. Os byddwch yn llwyddiannus, fe wnawn ni eich hyfforddi chi'n llawn am bopeth arall y mae angen i chi ei wybod.

### Mwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch ein tîm hyfryd ni yn Abergele: **01745 828 000** neu anfonwch e-bost ar: **wales@pss.org.uk**

**makeyourself.org.uk**

pss*